**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Hydref 14eg, 2024 am 7.30 y.h. yn Neuadd Y Rhiw.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Dafydd Myrddin, Jaci Jones (yn cadeirio), Nesta Roberts, Robert Williams, Wenda Williams. Y clerc Phil Hughes.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Emlyn Jones, Gwenllian Haf, Tim Rosa, Dafydd Williams, Gareth Williams (Cyngor Gwynedd).

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:** Nid oedd cyhoeddiadau

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Medi 2ail, 2024:**
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir a llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion:**

i. **Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
**Arwydd yn Seithbont, Botwnnog wedi troi** – Cyngor Gwynedd wedi ei basio i'r uned waith a chaiff sylw pan fydd adnoddau ar gael.
**Gordyfiant wrth fan pasio Meillionydd Bach** - Cyngor Gwynedd wedi ei gynnwys ar eu rhestr gwaith a chaiff sylw pan fydd adnoddau ar gael.
**Tyllau yn y lôn wrth Morfa Mawr** – Cyngor Gwynedd wedi'i ychwanegu i'w rhestr gwaith clytwaith i'w flaenoriaethu. Caiff sylw pan fydd adnoddau ar gael.
**Dŵr wedi hel ar y lôn ar y ffordd i mewn i Aberdaron** – Mae Dŵr Cymru yn ymwybodol bod y beipen ddŵr y gollwng ac mae'r gwaith wedi ei wneud.
**Arwydd 'Aberdaron' wedi mynd ar goll** – Dywed Cyngor Gwynedd nad oes ganddynt y cyllid i ariannu arwydd cast traddodiadol y tro yma a bydd rhaid cael un newydd tebyg i'r un ar gyrion Trefor (sydd yn edrych ychydig yn debyg i'r rhai traddodiadol).
**Swyddfa'r Cyngor ym Mhwllheli - nid oes man parcio 'Rhiant a Phlentyn'** – Nid oes mannau parcio i 'Rhiant a Phlentyn' ym Mhwllheli na Chaernarfon. Mae'r cyngor yn pwysleisio bod pedwar man parcio ymwelwyr yn faes parcio Pwllheli sy'n agos iawn i fynedfa'r dderbynfa.
**Drych yn Rhoshirwaun wrth y tro am Bencaerau** - Nid yw Cyngor Gwynedd yn awyddus i roi drych yn y man yma. Dywedwyd wrth y Cyngor, os byddant yn adolygu'r safle, y bydd siawns i'r drych ochr arall i'r ffordd gael ei dynnu i lawr hefyd.
**Oes gan cychod 'Sealegs' yr hawl i fynd yn ôl ac ymlaen ar y traeth yn Aberdaron?** – Oes mae gan gychod Sealegs yr hawl i yrru ar y traeth yn yr ardal dynodedig ar gyfer lansio.

ii. **Materion yr Eglwys Newydd** – Mae to'r Eglwys wedi ei orffen i safon dda. Mae Gallaghers wedi gyrru anfoneb ac mae'r cynghorwr Dewi Evans wrthi'n cysylltu gyda'r cwmni yswiriant i gael eu rhan nhw o'r costau. Mae Alys Jones o Gyngor Gwynedd wedi

gofyn am ddiweddariad ar Eglwys Newydd, felly penderfynwyd ei gwahodd hi i gyfarfod nesaf y cyngor.

iii. **Y Fynwent** –Taliadau hanesyddol o 2015 wedi eu derbyn gan RO Jones. Bydd clo angen ei roi ar y giât a chaiff ei agor unwaith mae'r taliadau wedi eu gwneud gan yr ymgymerwyr ar gyfer angladdau'r dyfodol.

iv. **Y Cae Chwarae** – Nid oedd diweddariad ar y cae chwarae.

**5) Mynwentydd yr ardal:** Yn unol â phwerau Deddf Llywodraeth Leol 2011 cytunwyd i roi £200 yr un i bob un o'r pum mynwent sef St Aelrhiw, St Hywyn, St Maelrhys, Bethesda a Nebo.

**6) Gohebiaethau:**

- **Rhybudd - Cau'r Ffordd o Bwll Melyn i'r gogledd-ddwyrain o Eglwys Sant Aelrhiw, Rhiw** – Gwaith wedi ei gwblhau.
- **Gwaith ail-wynebu Arfaethedig, Lon Rhiw, Mynytho** - Gwaith wedi ei gwblhau.
- **Llywodraeth Cymru'n lansio ymgynghoriad - rôl, llywodraethant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned** – Er gwybodaeth a chaiff unrhyw gynghorwr ei gwblhau.
- **Grant ar gael gan Groundwork Gogledd Cymru** – Penderfynwyd cwblhau cais am grant er mwyn adnewyddu tu mewn i Eglwys Newydd ar ôl cwblhau'r gwaith allanol.
- **Diwrnod Agored - Capel Newydd Nanhoron - 28.10.2024** - Er gwybodaeth.
- **Sioeau Teithiol Adra** – Er gwybodaeth.
- **Hosbis Dewi Sant yn holi am gyfarfod** – Penderfynwyd nad oedd angen cyfarfod gan nad yw'r hosbis o fewn ardal Aberdaron. Mae croeso i'r hosbis wneud cais ariannol os dymunant. Bydd cyfle i edrych ar gyfrannu yng nghyfarfod mis Mawrth.

**7) Cynllunio**

C24/0786/30/CR - Carreg Plas, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8LH – Newid 5 ffenestr bresennol yn rhai unedau dwbl. - **Dim gwrthwynebiad na sylwadau.**

**8) Ariannol**

*Derbyniadau*

| | |
|---|---|
| R O Jones (Taliadau angladdau hanesyddol) | £260 |

*Taliadau*

| | |
|---|---|
| Ffioedd banc HSBC | £5 |
| Three (CCTV) | £13.10 |
| Phil Hughes (Cyflog) | £260 |
| HMRC (PAYE) | £65 |
| Eon (Trydan) | £28.66 |
| Gerddi Gwell (Gwellt Eglwys Newydd) | £2,280 |
| Neuadd y Rhiw (Cyfarfod) | £20 |

**9) Materion ffyrdd a llwybrau**

1) Ym mhen lôn Fryndol mae tar wedi cael ei roi i lenwi tyllau ond yn anffodus mae dŵr wedi agor y tyllau a thynnu’r tar felly bydd angen ei ail wneud.

2) Mae eisiau agor ffos rhyw chwarter milltir o Geufron.

3) Mae twll yn y ffordd yn Nant Eiddon, Rhydlios ac mae angen ei gau.

4) Hoffai’r Cyngor ddiolch i'r rhai sydd wedi barbio’r lonydd mawr ym mhentref Aberdaron. Mae’r gwaith wedi’i gwblhau i safon uchel.

5) Mae gordyfiant gwrychoedd a choed ar ochrau ffyrdd o amgylch Pen Llŷn yn broblem fawr ac yn cynyddu’n flynyddol. Penderfynwyd ysgrifennu at yr aelod seneddol yn San Steffan, Liz Saville Roberts, ac aelod seneddol yng Nghaerdydd, Mabon ap Gwynfor, gan obeithio cael eu cefnogaeth.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, Tachwedd 11eg, 2024**

**yng Nghanolfan Deunant.**